**CCJS12 Bwrdd Taliadau Annibynnol  y Senedd**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Y Pwyllgor Busnes** | **Business Committee**

**Rhannu swydd cadeirydd Pwyllgor** | **Committee chair job sharing**

Ymateb gan: Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd | Evidence from: Independent Remuneration Board of the Senedd

04 12 2024

Trefniadau Rhannu Swydd i Gadeiryddion Pwyllgorau

Annwyl Elin,

Ysgrifennaf ar ran Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ('y Bwrdd') mewn perthynas â cham 2 o'r ymgynghoriad ar drefniadau Rhannu Swyddi i Gadeiryddion Pwyllgorau.

Mae gan y Bwrdd ddiddordeb yn ystyriaeth y Pwyllgor o'r maes hwn, gan gydnabod y cyfleoedd a'r heriau posibl i'r Senedd a all ddeillio o drefniadau o'r fath.

Ni all y Bwrdd wneud sylwadau ar y prif faterion a amlygwyd yn eich llythyr gan mai materion i'r Senedd yw'r rhain, ond rydym yn nodi ein rôl o ran ystyried tâl unrhyw swydd a rennir, pe bai'r Senedd yn cymeradwyo penderfyniad ar y mater.

Mae Pennod 3 o Benderfyniad y Bwrdd yn nodi bod gan Gadeiryddion pwyllgorau'r Senedd hawl i gyflog deiliad swydd ychwanegol sydd i'w dalu naill ai ar y gyfradd uwch o £14,636 neu ar y gyfradd is o £9,751 (yn 2024/25), yn amodol ar fynegeio blynyddol. Wrth wneud ei benderfyniadau ar gyflog ychwanegol Cadeiryddion pwyllgorau ar ddechrau Senedd neu pan fydd pwyllgorau'n cael eu sefydlu yn ystod Senedd, mae'r Bwrdd yn ystyried lefel ddisgwyliedig cyfrifoldebau pwyllgor a chymhlethdod ei waith. Mae'r Atodiad yn rhoi gwybodaeth gefndir ychwanegol ar dâl Cadeiryddion pwyllgorau ers 2011.

Wrth wneud penderfyniadau, mae'r Bwrdd yn ystyried yr egwyddorion a ganlyn:

- dylai'r cymorth ariannol a'r taliadau i'r Aelodau gefnogi diben strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau;
- rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru;
- rhaid i'r system cymorth ariannol i'r Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy ac yn gynhwysol, a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i drethdalwyr.

Os bydd y Senedd yn penderfynu cyflwyno trefniadau rhannu swydd ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau, byddai penderfyniad y Bwrdd yn cael ei lywio gan ddull gweithredu'r Senedd ac unrhyw newidiadau i'r Rheolau Sefydlog.

Nid yw'r Penderfyniad ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer rhannu'r cyflog ychwanegol ar delir deiliaid swyddi. Gan fod y Mesur yn nodi mai dim ond un Penderfyniad y gall y Bwrdd ei wneud mewn perthynas â chyflogau Aelodau sy'n dod i rym ar gyfer tymor Senedd benodol, byddai angen i'r Bwrdd wneud Penderfyniad Eithriadol. Rhaid i'r Bwrdd ystyried a oes amgylchiadau eithriadol a fyddai'n golygu bod gwneud hynny'n gyfiawn ac yn rhesymol. Byddai hyn yn cynnwys ystyried newidiadau i'r Rheolau Sefydlog i ddarparu trefniadau rhannu swydd ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau.

Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth hon o ddefnydd i chi yn eich ystyriaethau. Edrychwn ymlaen at weld penderfyniad y Senedd ynghylch y dull newydd hwn ar gyfer trefniadau rhannu swydd Cadeiryddion Pwyllgorau.

Cofion gorau,



**Dr Elizabeth Haywood,**

**Cadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. | We welcome correspondence in Welsh or English.*

## Atodiad A: Gwybodaeth gefndir ychwanegol ynghylch cyflog ychwanegol i Gadeiryddion Pwyllgorau ers 2011

Cyn i'r Bwrdd Taliadau gael ei sefydlu yn 2011, byddai dau banel annibynnol ar gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad yn ystyried cyflogau ychwanegol i Gadeiryddion Pwyllgorau. Nododd adolygiad gan y Bwrdd Adolygu Uwch-gyflogau yn 2001 fod cyfrifoldebau Cadeirydd Pwyllgor yn fwy na chyfrifoldebau Aelod Cynulliad, a bod lle i ddadlau o blaid talu cyflogau ychwanegol i Gadeiryddion rhai pwyllgorau. Arweiniodd hyn at roi cyflog ychwanegol i Gadeiryddion rhai pwyllgorau pwnc a rhai pwyllgorau craffu. Cytunodd y panel annibynnol — a gynullwyd yn 2008, cyn i'r Bwrdd Taliadau gael ei sefydlu — y dylid cynyddu'r cyflogau sy'n daladwy i Gadeiryddion rhai pwyllgorau. Arweiniodd hyn at dalu cyfraddau cyflog uwch neu is i Gadeiryddion pwyllgorau.

Ymhellach i'r penderfyniadau a roddwyd ar waith gan y paneli annibynnol yn 2001 a 2008, cynhaliodd y Bwrdd Taliadau cyntaf ymchwil helaeth i gyrraedd lefel gyflog briodol ar gyfer Cadeiryddion pwyllgorau yn 2014, gan gynnwys meincnodi yn erbyn cymaryddion mewn deddfwrfeydd eraill ac ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Fel rhan o'r gwaith hwn, ystyriwyd hefyd ddadansoddiad gan Hay Group o'r pwysau swyddi cymharol ar gyfer Cadeiryddion pwyllgorau'r Cynulliad. Ar ddiwedd yr ymarfer hwn, cadwodd y Bwrdd Taliadau blaenorol y cyfraddau uwch ac is ar gyfer cyflogau Cadeiryddion pwyllgorau, diwygiodd symiau'r ddau gyflog hynny, a chyflwynodd addasiadau blynyddol i gyflogau'r holl Aelodau, gan gynnwys cyflogau Cadeiryddion pwyllgorau, gan ddefnyddio mynegeion ASHE Cymru.

Yn ystod haf 2016, ystyriodd yr ail Fwrdd y cyfraddau cyflog sy'n daladwy i Gadeiryddion pwyllgorau ar ddechrau'r Bumed Senedd. Heblaw am greu pwyllgor polisi a deddfwriaeth ychwanegol, a phwyllgor wrth gefn i helpu i leddfu llwyth gwaith pwyllgorau eraill, nid chafwyd unrhyw newidiadau sylweddol i strwythur y pwyllgorau. Roedd gan bwyllgorau'r Bumed Senedd gyfrifoldebau a chylchoedd gwaith tebyg i rai'r Bedwaredd Senedd. Gan hynny, roedd y Bwrdd yn fodlon bod y lefelau cyflog yn parhau i fod yn briodol a'u bod yn dal yn unol â'r cyflogau a dalwyd i gadeiryddion pwyllgorau mewn deddfwrfeydd eraill yn y DU. Penderfynodd felly, ar ôl ymgynghori, y dylai'r cyflogau aros yr un fath.

Ni chafodd cyflogau Cadeiryddion pwyllgorau eu hadolygu ar gyfer y Chweched Senedd. Nodwyd y rhesymeg a ganlyn dros y penderfyniad hwn yn yr adroddiad ar yr adolygiad o Benderfyniad y Chweched Senedd;

*"Daeth y Bwrdd i'r casgliad bod difrifoldeb effaith economaidd barhaus y pandemig yn golygu y byddai unrhyw godiad cyflog yn amhriodol yng nghyd-destun cyflogau mewn rhannau eraill o Gymru. Cytunodd y Bwrdd fod ei benderfyniadau ar hyn yn bwysig wrth*

*gynnal hyder y cyhoedd ar adeg pan fo'r wlad yn wynebu cynifer o heriau digynsail. O ystyried y casgliadau hyn, penderfynodd y Bwrdd rewi cyflogau Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol am ail flwyddyn... Mae hyn yn golygu y bydd cyflogau Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol yn aros yn ddigyfnewid ar gyfer dechrau'r Chweched Senedd ac am weddill y Senedd hon."*

Mae mynegeio blynyddol wedi cael ei gymhwyso i gyflogau'r holl Aelodau, gan gynnwys deiliaid swyddi ychwanegol, ers 2021/22. Mae cyflogau'n cael ei addasu bob mis Ebrill gan y newid yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, Enillion Gros Canolrifol Blynyddol cyflogeion amser llawn yng Nghymru rhwng mis Ebrill y flwyddyn gyfredol a mis Ebrill y flwyddyn flaenorol (ond ni fydd yn is na sero y cant nac yn uwch na thri y cant).